OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2013 Rhif 2252 (Cy. 218)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Y Stryd Fawr, Aberystwyth, Ceredigion) (Gwhardd Aros Dros Dro) 2013

Gwnaed	*6 Medi 2013*
Yn dod i rym	*12 Medi 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Medi 2013. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Y Stryd Fawr, Aberystwyth, Ceredigion) (Gwahardd Aros Dros Dro) 2013

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd ar y Stryd Fawr, Aberystwyth yn Sir Ceredigion sy'n ymestyn o bwynt sy'n 12 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd y Popty hyd at bwynt sy'n 24 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd a o dan sylw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwahardd

3. Ni chaiff neb, ac eithrio ar gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatau i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, aros, llwytho na dadlwytho ar unrhyw adeg ar y naill ochr a'r llall i'r darn o'r gefnffordd.

Cymhwyso

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 6 Medi 2013

R Morgan
R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.